Cyllid & Thollau EM

# Cais gwirfoddol i dalu taliadau heb eu talu ar gyfer datganiadau gohiriedig

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Llenwch y ffurflen hon gan ddefnyddio priflythrennau. Darllenwch y nodiadau sy'n dechrau ar dudalen 3 i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

Cadwch y ffurflen ar ôl ei llenwi a'i hanfon i customsaccountingrepayments@hmrc.gov.uk
Yn llinell pwnc yr e-bost, nodwch 'C18 - Delayed Declaration'.

## Rhan 1 – manylion y masnachwr

**Enw'r masnachwr**

**Cyfeiriad y masnachwr**

Cod post

**Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwr Economaidd (EORI)**

**Cyfeiriad e-bost cyswllt**

**Rhif Cofrestru TAW (os yw'n berthnasol)**

## Rhan 2 – manylion mewnforio a nwyddau

**Dyddiad mewnforio** DD MM BBBB

**Dyddiad derbyn** DD MM BBBB

**Disgrifiad o nwyddau**

**Swm yr anfoneb**

Os defnyddiwyd punnoedd Prydeinig (GBP), rhowch y swm

£ . 0 0

Os nad GBP a ddefnyddiwyd, rhowch y math o arian a'r swm

. 0 0

**A ydych wedi rhoi cyfrif am TAW drwy Gyfrifyddu TAW Gohiriedig (PVA)?**

Naddo ☐

Do ☐

## Rhan 3 – manylion y nwyddau wedi'u mewnforio

**Cod nwyddau**

**Cod y wlad tarddiad**

**Màs gros**

**Màs net**

**Ffafriaeth**

**Cod gweithdrefnau tollau**

**Unedau atodol**

**Pris yr eitem**

£ . 0 0

**Addasiad**

Cod telerau masnachol

Canran addasu

%

**Ffi yswiriant**

£ . 0 0

**Taliadau a/neu ddidyniadau eraill**

£ . 0 0

**Addasiad ar gyfer gwerth TAW**

£ . 0 0

**A yw'r nwyddau wedi'u symud drwy faes awyr?**

Naddo ☐ Ewch i'r adran nesaf

Do ☐ Llenwch y blychau

**Cod maes awyr lle cafodd y nwyddau eu llwytho**

**Costau cludiant awyr**

£ . 0 0

**Ffi cludo nwyddau**

£ . 0 0

## Rhan 4 – manylion nwyddau ecséis

Gadewch yr adran hon yn wag os na chafodd nwyddau ecséis eu mewnforio.

**Math o gynnyrch**
Er enghraifft tybaco rholio â llaw, gwin pefriog

**Nifer**

**Uned mesur**
Er enghraifft cilogram, litr, ffyn

**Alcohol yn ôl cyfaint (ABV) (os yw'n berthnasol)**

. %

**Pris manwerthu a argymhellir (RRP) (sigaréts yn unig)**

£ . 0 0

**Cyfradd dreth**

**Rhif adnabod cyfradd treth (ID)**

## Rhan 5 – datganiad

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn wir ac yn gyflawn.

**Llofnod y masnachwr**

**Enw llawn**

**Dyddiad cyflwyno** DD MM BBBB

## Nodiadau esboniadol ar gyfer ffurflen datganiad gohiriedig

Bydd angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan linell gymorth Tollau a Masnach Ryngwladol (C&IT) CThEM.

Bydd y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion tollau, gan gynnwys cyfrifo toll dramor, TAW neu ecséis. Bydd rhaid i chi dalu unrhyw rwymedigaethau heb eu talu cyn pen 10 diwrnod o gael gwybod.

Mae'r nodyn esboniadol hwn yn darparu arweiniad ar yr hyn mae'n rhaid i chi ei nodi ym mhob maes ar y ffurflen. Darllenwch yr arweiniad hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen. Efallai y bydd angen i chi ailgyflwyno'r datganiad hwn os yw unrhyw ran o'r wybodaeth rydych yn ei rhoi yn anghywir neu'n annilys.

E-bostiwch bob ffurflen gyflawn i customsaccountingrepayments@hmrc.gov.uk
Yn llinell pwnc yr e-bost, nodwch 'C18 – delayed declaration'.

### Arweiniad ar lenwi'r ffurflen hon

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob math o eitem nwyddau yr ydych yn ei datgan dros gyfnod o 10 diwrnod. Rhaid i'r eitemau nwyddau gael yr un cod nwyddau. Mae enghraifft wedi'i chynnwys isod.

**Enghraifft**
Rydych wedi mewnforio 1 x 1,000 o grysau-t cotwm i ddynion bob dydd am 10 diwrnod rhwng 1 Ionawr 2021 a 10 Ionawr 2021, gan ddefnyddio datganiadau gohiriedig. Os ydych wedi cael cyfarwyddyd i lenwi'r ffurflen hon gan CThEM, cewch ddatgan 10,000 o grysau-T cotwm i ddynion ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2021 tan 10 Ionawr 2021 ar y ffurflen hon.

Os ydych, yn yr un cyfnod, hefyd wedi mewnforio 1 x 1,000 o esgidiau i ddynion bob dydd, rhaid i chi lenwi ffurflen ar wahân gan fod gan y nwyddau hyn god nwyddau gwahanol.

## Rhan 1 – manylion y masnachwr

**Enw'r masnachwr**
Nodwch eich enw masnachwr cyfreithiol fel y mae'n ymddangos ar ddogfennau swyddogol.

**Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwr Economaidd (EORI)**
Er mwyn mewnforio nwyddau i'r DU, rhaid i chi gael rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwr Economaidd (EORI). Rhowch eich rhif EORI yn y maes hwn.

I gael arweiniad ar sut i gofrestru ar gyfer rhif EORI, ewch i www.gov.uk/cael-rhif-eori

**Cyfeiriad y masnachwr**
Nodwch gyfeiriad eich busnes.

**Cyfeiriad e-bost cyswllt**
Rhowch gyfeiriad e-bost y gallwn ei ddefnyddio i gysylltu â chi.

**Rhif Cofrestru TAW**
Os ydych yn fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW, rhowch eich Rhif Cofrestru TAW yn y maes hwn. Fe welwch yr wybodaeth hon ar ohebiaeth ffurfiol a dogfennau y mae CThEM wedi'u hanfon atoch.

## Rhan 2 – manylion mewnforio a nwyddau

**Dyddiad mewnforio**
Dyma'r dyddiad y cafodd eich nwyddau eu clirio wrth y ffin a chyrraedd Prydain Fawr.

**Dyddiad derbyn**
Y dyddiad derbyn yw pa un bynnag o'r rhain oedd hwyraf:

- pan wnaethoch gofnod yn eich cofnodion
- pan gliriodd eich nwyddau'r ffin a chyrraedd Prydain Fawr

Os nad ydych yn siŵr pryd y gwnaethoch gofnod yn eich cofnodion ar gyfer eich nwyddau, rhowch y dyddiad y gwnaeth eich nwyddau glirio'r ffin wrth fewnforio.

**Disgrifiad o nwyddau**
Defnyddiwch y maes hwn i ddisgrifio'r nwyddau rydych yn eu datgan. Dylai'r disgrifiad hwn fod yn ddigon i ddangos beth yw'r nwyddau'n hawdd, gan ddefnyddio disgrifiadau masnachwyr cyffredin. Peidiwch â defnyddio'r disgrifiad fel y mae'n ymddangos ar yr offeryn chwilio am god nwyddau.

Er enghraifft, defnyddiwch ddulliau adnabod a dosbarthu manwl gywir fel 'magnesiwm potasiwm sylffad'. Peidiwch â defnyddio termau cyffredinol fel 'mwynau, 'nwyddau' neu 'nwyddau cemegol'.

**Math o arian a swm yr anfoneb**
Rhowch y math o arian fel y mae'n ymddangos ar yr anfoneb fasnachol ar gyfer y nwyddau rydych yn eu datgan. Nodwch hefyd gyfanswm gwerth cyfun y nwyddau rydych yn eu datgan fel y mae'n ymddangos ar eich anfoneb.

**Cyfrifyddu TAW Ohiriedig (PVA)**
Mae'n ofynnol i fusnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW sy'n gohirio eu datganiadau roi cyfrif am TAW mewnforio ar eu Ffurflen TAW, sy'n cynnwys y dyddiad y gwnaethant fewnforio'r nwyddau. Enw hyn yw Cyfrifyddu TAW Ohiriedig.

Nodwch a ydych wedi rhoi cyfrif am TAW mewnforio ar y nwyddau rydych yn eu datgan ar y ffurflen hon mewn Ffurflen TAW flaenorol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/complete-your-vat-return-to-account-for-import-vat#if-you-delay-your-customs-declaration

## Rhan 3 – manylion y nwyddau wedi'u mewnforio

**Cod nwyddau**
Rhowch 8 digid cyntaf y cod nwyddau ar gyfer y nwyddau a ddisgrifir yn rhan 2 o'r ffurflen fel y nodir yn Nhariff Masnach y DU. Mae'r cod hwn yn dweud wrth yr adran dollau beth yw'r nwyddau. Dewiswch y nwyddau mwyaf perthnasol ar yr offeryn a byddwch yn cael rhif cod 8 digid. Ewch i www.trade-tariff.service.gov.uk/sections

**Cod y wlad tarddiad**
Rhowch god y wlad tarddiad ar gyfer nwyddau fel y mae'n ymddangos yn Nhariff Masnach y DU. Mae'r wlad tarddiad yn ymwneud â naill ai:

- lle cafodd y nwyddau eu gweithgynhyrchu;
- lle digwyddodd y prosesu sylweddol diwethaf

Ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-country-and-currency-codes/uk-trade-tariff-country-and-currency-codes

Dim ond un eitem nwyddau ag un cod nwyddau ar gyfer eich mewnforion dros gyfnod o 10 diwrnod y byddwch yn gallu ei datgan, ni waeth a oeddent wedi'u cynnwys yn yr un llwyth wrth fewnforio ai peidio. Os ydych wedi mewnforio sawl eitem nwyddau gyda gwahanol godau nwyddau, rhaid i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob eitem nwyddau ar wahân gyda chod nwyddau gwahanol.

**Màs gros**
Nodwch gyfanswm pwysau'r nwyddau yr ydych wedi'u datgan ar y ffurflen hon, gan gynnwys pwysau unrhyw becynnau o amgylch y nwyddau. Peidiwch â chynnwys pwysau cynwysyddion nac unrhyw gyfarpar cludo arall yn y maes hwn. Rhowch y màs gros mewn cilogramau hyd at 3 lle degol os yw'n berthnasol - er enghraifft 100.243 kg.

**Màs net**
Rhowch gyfanswm pwysau eich nwyddau mewn cilogramau, llai pwysau unrhyw becynnau hyd at 3 lle degol os yw'n berthnasol - er enghraifft 90.983 kg. Y màs net yw pwysau'r nwyddau heb unrhyw becynnau.

**Ffafriaeth**
Mae llenwi'r blwch hwn yn orfodol p'un ai a ydych yn hawlio ffafriaeth ai peidio. Os nad ydych yn hawlio ffafriaeth, defnyddiwch y cod '100'. Os yw eich nwyddau'n dod o dan gytundeb masnach rydd y DU a'r UE a'ch bod yn hawlio'r 'ffafriaeth tariff', rhowch y cod ffafriaeth 3 digid perthnasol i'w ddefnyddio i ddangos statws tarddiad ffafriol eich nwyddau.

I gael y diffiniad a rhestr lawn o'r codau, ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-imports-and-community-transport-inwards/uk-trade-tariff-imports-and-community-transport-inwards#box-36-preference

**Cod gweithdrefnau tollau**
Rhowch y cod gweithdrefnau tollau (CPC) perthnasol sy'n nodi'r gyfundrefn tollau yr ymrwymwyd i'ch nwyddau, er enghraifft cylchrediad rhydd. Rhif 7 digid yw hwn.

Er enghraifft, ar gyfer nwyddau sy'n cael eu mewnforio i gylchrediad rhydd Prydain Fawr o'r UE, '4,000 000' fyddai'r CPC.

Darllenwch 'Cod gweithdrefnau tollau (blwch 37)' i gael cyfarwyddiadau. Ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-customs-procedure-codes

**Unedau atodol**
Yn y maes hwn, nodwch yr uned fesur sy'n berthnasol i'ch nwyddau. Bydd yr adran Toll Dramor ar yr offeryn cod nwyddau ar-lein (ewch i www.trade-tariff.service.gov.uk/sections) yn dweud wrthych a oes angen i chi lenwi'r blwch hwn ai peidio.

Os oes, nodwch pa uned sy'n berthnasol i'r nwyddau. Er enghraifft, naill ai:
- litr
- nifer y darnau unigol

**Pris yr eitem**
Yn y blwch hwn, dylech ddatgan gwerth pob eitem nwyddau rydych yn ei datgan. Cofiwch nad dyma'r cyfanswm rydych yn ei ddatgan. Dylid datgan hynny yn swm yr anfoneb. Er enghraifft:
- crysau-t cotwm i oedolion: £100
- esgidiau chwaraeon i oedolion: £100

**Addasiad**
Mae'r blwch hwn yn nodi a oes angen gwneud unrhyw adiadau neu ddidyniadau i'r gwerth wedi'i ddatgan yng nghyfanswm yr anfoneb er mwyn cael y gwerth tollau at ddibenion cyfrifo'r doll.

Rhaid llenwi'r blwch hwn mewn 2 ran. Mae'r cyntaf yn god un digid sy'n nodi'r telerau masnachol sy'n berthnasol i'r nwyddau. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyma'r swm a godir ar eich anfoneb. Gweler Blwch 45 am y tabl o godau tymor anfonebau sydd eu hangen yn y rhan gyntaf. Ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-imports-and-community-transport-inwards/uk-trade-tariff-imports-and-community-transport-inwards

Mae'r ail ran yn ganran sy'n nodi faint o adiad neu ddidyniad i'r gwerth sydd wedi'i ddatgan yng nghyfanswm yr anfoneb y mae angen ei wneud i gael y gwerth tollau ar gyfer cyfrifo'r doll. Bydd CThEM wedi rhoi gwybod i chi am unrhyw addasiad canrannol. Os nad oes addasiad canrannol, nodwch 0.

**Ffioedd yswiriant**
Rhaid i chi lenwi'r maes hwn os ydych wedi talu am gludo eich nwyddau ac nad yw'r costau hyn wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm eich anfoneb. Defnyddiwch y blwch hwn i ddatgan y costau yswiriant yr ydych wedi'u talu i ddiogelu cludiant y nwyddau.

**Taliadau a/neu ddidyniadau eraill**
Nodwch yma a ydych wedi talu unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â mewnforio eich nwyddau nad ydynt wedi'u datgan yn swm yr anfoneb.

**Addasiad ar gyfer gwerth TAW**
Defnyddiwch y blwch hwn dim ond pan fyddwch wedi talu unrhyw gostau ychwanegol i'r hyn rydych wedi'i ddatgan yn swm yr anfoneb. Mae angen y costau hyn i gyfrifo TAW mewnforio ar gyfer eich nwyddau. Er enghraifft, costau cludo nwyddau neu gostau yswiriant. Os nad oes angen addasiad, gadewch y maes hwn yn wag.

**Cod maes awyr lle cafodd y nwyddau eu llwytho**
Llenwch y maes hwn dim ond os yw eich nwyddau wedi cyrraedd y DU ar awyren a'ch bod yn hawlio didyniad costau cludiant awyr at ddibenion cyfrifo'r doll. Mae costau cludiant awyr sy'n berthnasol i'r pellter wedi'i hedfan y tu mewn i'r UE wedi'u heithrio o Doll dramor. Fodd bynnag, bydd y costau hyn yn cyfrif tuag at swm y TAW sy'n ddyledus.

Os felly, rhowch y cod maes awyr IATA 3-alpha fel y dangosir ar y teithrestr y byddwch wedi'i chael. Dim ond os ydych yn hawlio didyniad costau cludiant awyr at ddibenion cyfrifo'r doll y mae'n rhaid i chi wneud hyn.

**Costau cludiant awyr**
Dim ond os ydych wedi llenwi'r maes 'maes awyr llwytho' y dylech lenwi'r blwch hwn. Defnyddiwch y blwch hwn i nodi'r taliadau rydych wedi'u talu mewn cysylltiad â chludo nwyddau ar awyrennau yn unig. Peidiwch â chynnwys taliadau sy'n ymwneud â thrin neu ffioedd asiantaeth yn y maes hwn. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y taliadau hyn wedi'u dangos yn glir ar eich anfoneb.

**Ffi cludo nwyddau**
Os ydych wedi cynnwys taliadau cludo nwyddau yn y meysydd pris eitem a swm yr anfoneb, does dim rhaid i chi lenwi'r blwch hwn. Fel arall, rhaid i chi ddatgan eich taliadau cludo nwyddau yn y blwch hwn.

## Rhan 4 – manylion nwyddau cartref

Peidiwch â llenwi'r adran hon oni bai eich bod wedi mewnforio nwyddau ecséis - er enghraifft alcohol, sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill. Fel arall, gadewch hi'n wag.

**Math o gynnyrch**

Nodwch y math o nwyddau ecséis rydych yn eu datgan. Er enghraifft sigaréts, tybaco rhydd, cwrw, gwin, gwin pefriog neu wirodydd alcohol. Mae'n rhaid i chi gwblhau cais ar wahân ar gyfer pob math o gynnyrch rydych yn ei ddatgan. Er enghraifft, os ydych wedi mewnforio cwrw a gwirodydd, byddai angen i chi lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob un o'r mathau hyn o gynnyrch.

**Nifer**

Mae angen i chi ddatgan cyfanswm y nwyddau ecséis rydych yn eu datgan fesul math o eitem.
Er enghraifft:

- Gwin pefriog: 1 X 100
- Fodca: 1 X 500

**Uned mesur**

Nodwch gyfaint eich nwyddau ecséis. Defnyddiwch gilogramau ar gyfer eitemau nad ydynt yn hylifol (sigaréts, er enghraifft) a litrau ar gyfer eitemau hylifol (cwrw, er enghraifft).

**Alcohol yn ôl cyfaint (AVB) (os yw'n berthnasol)**

Ar gyfer cynhyrchion alcohol, nodwch yr alcohol yn ôl cyfaint yn y blwch hwn. Mae AVB yn fesur safonol i bennu faint o alcohol sydd mewn diod. Er enghraifft, 5% ar gyfer cwrw.

**Pris manwerthu a argymhellir (RRP)**

Llenwch y maes hwn dim ond os ydych yn datgan cynhyrchion tybaco neu sigaréts. Rhaid i chi ddatgan y pris manwerthu a argymhellir ar gyfer eich nwyddau yn y DU. Os ydych yn datgan cynhyrchion alcohol, gadewch y maes hwn yn wag.

**Cyfradd dreth**

Gan ddefnyddio Tariff Masnach y DU ar gyfer nwyddau ecséis, nodwch y gyfradd dreth ar gyfer eich nwyddau ecséis fel y mae'n ymddangos yn y Tariff. Ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-excise-duties-reliefs-drawbacks-and- allowances/uk-trade-tariff-excise-duties-reliefs-drawbacks-and-allowances

**Rhif adnabod cyfradd treth (ID)**

Gan ddefnyddio Tariff Masnach y DU ar gyfer nwyddau ecséis, nodwch ID y gyfradd dreth ar gyfer eich nwyddau ecséis. Ewch i www.gov.uk/government/publications/uk-trade-tariff-excise-duties-reliefs-drawbacks-and-allowances/uk-trade-tariff-excise-duties-reliefs-drawbacks-and-allowances

## Rhan 5 – Datganiad

Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi a'i ddyddio yn unol â'r rheolau canlynol. Os yw'r masnachwr:

- yn unigolyn - gennych chi eich hun
- yn sefydliad (cwmni neu bartneriaeth) - gan un o'r partneriaid, cyfarwyddwyr, ysgrifennydd y sefydliad neu rywun neu weithiwr a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan berson cyfrifol ar gyfer y sefydliad

Drwy lofnodi a dyddio'r ffurflen hon, mae'r unigolyn yn cadarnhau bod y manylion a ddangosir ar y ffurflen ac unrhyw dudalennau parhad yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf ei wybodaeth neu ei gred, a bod gofynion unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu UE wedi'u bodloni.

## Pobl wedi'u cau allan o'r byd digidol

Efallai y byddwch yn teimlo eich bod wedi eich cau allan o'r byd digidol ac nad ydych yn gallu cyflwyno'r ffurflen drwy e-bost os bydd unrhyw un o'r datganiadau canlynol, neu resymau tebyg eraill, yn berthnasol i chi:

- rydych yn oedolyn yn y DU sydd byth yn defnyddio'r rhyngrwyd
- roeddech arfer defnyddio'r rhyngrwyd ond nid ydych yn ei ddefnyddio bellach
- nid ydych erioed wedi defnyddio'r rhyngrwyd
- rydych yn byw mewn ardal lle mae'r ddarpariaeth band eang yn wael ac mae hyn yn effeithio ar eich gallu i gyflwyno Ffurflen Dreth ar-lein
- nid oes gennych unrhyw un a allai eich helpu i gyflwyno Ffurflen Dreth ar-lein - er enghraifft aelod o'r teulu, ffrind, asiant neu gyfryngwr
- rydych yn 60 oed neu drosodd ac yn methu cyflwyno Ffurflen Dreth ar-lein oherwydd eich oedran

Os bydd y rhain neu unrhyw resymau eraill yn gwneud i chi deimlo eich bod wedi eich cau o'r byd digidol, gallwch argraffu copi o'r ffurflen wedi'i llenwi a'i hanfon at:

BT-NCH
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST